



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru

Canllaw Arfer

Gwireddu potensial trafodaethau
cyn ymgeisio

Mai 2012

Tabl cynnwys

| | | |
|----------|--|-----------|
| 1 | Cyflwyniad | 3 |
| | Cefndir | 3 |
| | Diben y canllawiau | 3 |
| | Cwmpas y canllawiau..... | 4 |
| 2 | Manteision Gwasanaeth Cyn Ymgeisio..... | 5 |
| 3 | Darparu Gwasanaeth Cyn Ymgeisio..... | 7 |
| | Statws cyngor cyn ymgeisio..... | 7 |
| | Codi tâl am gyngor cyn ymgeisio | 8 |
| | Cymesuredd..... | 8 |
| | Cysondeb..... | 8 |
| | Trafodaethau cyn ymgeisio effeithiol..... | 9 |
| | Cynnwys rhanddeiliaid eraill..... | 9 |
| 4 | Prosesau ac Adnoddau ar gyfer Trafodaethau Cyn Ymgeisio | 12 |
| 5 | Rhestrau Gwirio ar gyfer Awdurdodau Cynllunio ac Ymgeiswyr.. | 14 |
| 6 | Rhagor o Wybodaeth a Chyngor..... | 17 |

1 Cyflwyniad

Cefndir

- 1.1 Mae polisi cynllunio Llywodraeth Cymru, a geir ym Mholisi Cynllunio Cymru, yn annog awdurdodau cynllunio lleol ac ymgeiswyr i drafod cynigion cyn cyflwyno cais cynllunio yn ffurfiol. Yn ôl Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 4, Chwefror 2011, paragraff 1.3.8) "Mae cynnal trafodaethau wedi eu rheoli'n dda cyn cyflwyno ceisiadau yn rhan bwysig o'r broses gynllunio. Gallant wella ansawdd y ceisiadau a helpu i leihau'r amser sydd ei angen i ddelio â chais ffurfiol".
- 1.2 Gall cynnal trafodaethau cyn ymgeisio helpu darpar ymgeiswyr (a all gynnwys unigolion, deiliaid tai, busnesau a datblygwyr) i ddeall y broses ymgeisio. Gall trafodaethau nodi'r fframwaith perthnasol o ran polisi cynllunio a ddefnyddid i asesu cynnig a nodi'r wybodaeth y byddai ei hangen i ategu cais cynllunio. Rhydd trafodaethau cynnar y cyfle i wneud diwygiadau a gwelliannau hyddysg i gynlluniau cyn cyflwyno cais ffurfiol. Gallant hefyd helpu i nodi grwpiau cymunedol, ymgylgoreion a rhanddeiliaid eraill sy'n debygol o fod ynghlwm wrth y broses ymgeisio. Gall y trafodaethau hyn esgor ar gais cynllunio gwell a datblygiad o ansawdd uwch.
- 1.3 Mewn ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2010 - "Astudiaeth i Archwilio'r Broses Ceisiadau Cynllunio yng Nghymru" - argymhellwyd y dylid llunio canllaw arfer ar drafodaethau cyn ymgeisio¹. Mae'r Canllaw Arfer hwn yn rhan o ymateb Llywodraeth Cymru i argymhelliad yr adroddiad, sy'n ystyried mesurau llwyddiannus sydd ar waith eisoes yng Nghymru a thu hwnt.

Diben y canllawiau

- 1.4 Bwriedir i'r canllawiau, a luniwyd ar y cyd â Chymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru, helpu awdurdodau cynllunio lleol ac ymgeiswyr ond byddant hefyd o fudd i aelodau lleol, cymunedau, ymgylgoreion a rhanddeiliaid eraill sydd ynghlwm wrth y broses ymgeisio.
- 1.5 Mae gan y rhan fwyaf o awdurdodau cynllunio broses cyn ymgeisio ar waith eisoes a bydd y ddogfen hon yn rhoi egwyddorion arfer da i'r awdurdodau hynny y gellir eu hymgorffori fel rhan o'u harlwy presennol. Yn achos awdurdodau cynllunio lleol eraill, bydd y cyngor a roddir yn y canllaw hwn yn darparu'r fframwaith ar gyfer cyflwyno gwasanaeth newydd.

¹Llywodraeth Cymru (Mehfin 2010). Astudiaeth i Archwilio'r Broses Ceisiadau Cynllunio yng Nghymru. [dolen <http://cymru.gov.uk/topics/planning/planningresearch/planningappprocess/papers/planningappstudy/?skip=1&lang=cy>]

Cwmpas y canllawiau

- 1.6 Mae'r ddogfen hon yn sôn am drafodaethau ynghylch ceisiadau cynllunio, ond gall llawer o'r egwyddorion a nodir fod yn gymwys i fathau eraill o drafodaethau cyn ymgeisio a gynhelir gan awdurdodau cynllunio lleol. Er enghraifft, gallai'r egwyddorion fod yn gymwys i drafodaethau ynghylch adeiladau rhestredig neu ganiatâd hysbysebu.

2 Manteision Gwasanaeth Cyn Ymgeisio

2.1 Nid oes rhaid cynnal trafodaethau cyn ymgeisio ond mae'r rhan fwyaf o awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru yn dewis darparu'r fath wasanaeth.

2.2 Gall manteision proses cyn ymgeisio gynnwys y canlynol:

- nodi'r wybodaeth sydd ei hangen i ategu cais fel na chyflwynir cais anghyflawn;
- nodi'r fframwaith polisi cynllunio sy'n berthnasol ar hyn o bryd ac sy'n dod i'r amlwg;
- nodi problemau posibl ar gam cynnar;
- lleihau nifer yr achosion o wrthod cais;
- lleihau nifer yr apeliadau a wneir;
- lleihau nifer yr amodau cyn cychwyn;
- arbed adnoddau;
- pennu amserlenni a gweithdrefnau gweinyddol;
- lleihau gwrthdaro drwy godi ymwybyddiaeth o gynigion datblygu a rhoi'r cyfle i'r gymuned leisio barn ar gam cynnar;
- gwella cysondeb, sicrwydd a chyflymder i ddefnyddwyr y system gynllunio.

2.3 Mae trafodaethau cyn ymgeisio yn gofyn i ymgeiswyr ac awdurdodau cynllunio lleol weithredu mewn ffordd adeiladol. Ceir manteision i bawb dan sylw. Er enghraifft, dylai awdurdod cynllunio lleol achub ar y cyfle i wella cynnig cyn iddo gael ei gyflwyno a gall datblygwr arbed amser ac arian drwy fod yn gwbl hyddysg cyn cyflwyno cais. Yn y pen draw, gall gwasanaeth cyn ymgeisio da olygu bod ardal yn fwy deniadol i fuddsoddi ynddi. Gall awdurdodau cynllunio lleol a datblygwyr gymryd camau ymarferol i wireddu manteision trafodaethau cyn ymgeisio; nodir llawer o'r camau hyn mewn rhestrau gwirio yn adran 5 o'r ddogfen hon.

2.4 Yn ôl tystiolaeth o adroddiad ymchwil 2010, "Astudiaeth i Archwilio'r Broses Ceisiadau Cynllunio yng Nghymru", er bod gan nifer o awdurdodau cynllunio lleol wasanaeth da ar waith, ni wireddir manteision gwasanaeth cyn ymgeisio yn llawn am y rhesymau canlynol:

- tueddir i gynnal trafodaethau mewn modd ad hoc a heb baratoi ymlaen llaw;
- yn aml, nid yw'r cyngor a roddir ar y cam cyn ymgeisio yn cyfateb i'r cyngor a roddir ar y cam ymgeisio dilynol;

- efallai na chynhelir trafodaethau wrth baratoi cais, neu fe'u cynhelir yn hwyr yn y broses;
- gall y broses o ymgysylltu â thrydydd partïon fod yn gyfyngedig a phan fydd yn digwydd efallai na cheir ymateb amserol nac adeiladol;
- gall fod diffyg eglurder ynghylch y gwasanaeth a gynigir gan awdurdod cynllunio lleol ar gyfer trafodaethau cyn ymgeisio.

2.5 Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi nodi'r enghreifftiau canlynol o faterion a all fod yn destun cwynion a geir ganddo o ran cyngor cyn ymgeisio:

- rhoi cyngor cynllunio anghywir, camarweiniol neu anghyflawn cyn cyflwyno cais;
- dim system ar gael i sicrhau bod cyngor wedi'i gofnodi'n gywir;
- methu ag egluro mai cyngor anffurfiol a roddwyd ac nad oedd yn ymrwmo'r Cyngor i benderfyniad penodol yn y dyfodol.

2.6 Nod y ddogfen hon yw mynd i'r afael â'r materion a'r pryderon uchod er mwyn ategu'r broses cyn ymgeisio a sicrhau y rhoddir cyngor cyn ymgeisio clir, cyson a chywir. Disgrifia nifer o egwyddorion allweddol a ddylai lywio trafodaethau cyn ymgeisio, noda rolau a chyfrifoldebau rhanddeiliaid, ac amlinella nifer o adnoddau a phrosesau y gellid eu defnyddio i hwyluso'r broses cyn ymgeisio.

3 Darparu Gwasanaeth Cyn Ymgeisio

3.1 Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i awdurdodau cynllunio lleol gynnig gwasanaeth cyn ymgeisio a mabwysiadu rhai egwyddorion allweddol. Dylai awdurdodau cynllunio lleol wneud y canlynol:

- darparu datganiad am y gwasanaeth cyn ymgeisio sy'n nodi sut yr ymdrinnir ag ymholiadau ynghyd â syniad o'r amser a gymerir i ymateb. Dylai'r datganiad am y gwasanaeth cyn ymgeisio hefyd ddiffinio'r math o wybodaeth a ddisgwylir mewn cyflwyniadau cyn ymgeisio a lefel y wybodaeth honno, a ddylai adlewyrchu cymhlethdod ac effaith bosibl cynnig. Dylai'r datganiad am y gwasanaeth fod ar gael i'r cyhoedd a dylai gael ei roi ar wefan yr awdurdod lleol;
- darparu ffurflen safonol ar gyfer gwneud cyflwyniadau cyn ymgeisio a nodyn cyfarwyddyd;
- nodi'n glir y caiff unrhyw gyngor cyn ymgeisio ei roi yn anffurfiol ac na chaiff unrhyw ddylanwad ar y penderfyniad ynghylch cais cynllunio ffurfiol;
- rhoi ymateb ysgrifenedig i ymholiadau cyn ymgeisio sy'n nodi'r fframwaith polisi cynllunio ac unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill o ran y cynnig;
- gwneud cofnod ffurfiol o'r holl drafodaethau a chyngor cyn ymgeisio. Dylai'r wybodaeth hon gael ei chofnodi a'i chysylltu â'r darn perthnasol o dir neu eiddo er mwyn helpu gydag unrhyw achos dilynol o chwilio hanes cynllunio - bydd hyn yn helpu awdurdodau cynllunio lleol i roi cyngor cynllunio cyson. Dylai awdurdodau cynllunio lleol fabwysiadu protocol safonol ar gyfer cofnodi ymholiadau a thrafodaethau cyn ymgeisio, gyda chopïau o nodiadau cyfarfodydd ar gael i'r ymgeisydd;
- anelu at sicrhau dilyniant o ran y swyddogion dan sylw ond, os nad oes modd gwneud hyn, sicrhau y cedwir cofnodion da o drafodaethau cyn ymgeisio er mwyn helpu i sicrhau cysondeb o ran cyngor cynllunio.

Statws cyngor cyn ymgeisio

3.2 Dylai pob parti nodi, er y dylai'r awdurdod cynllunio lleol wneud pob ymdrech i roi cyngor ar dderbynioldeb cynnig mewn egwyddor, dim ond yn anffurfiol y gellir rhoi'r cyngor hwn, heb iddo ddylanwadu ar unrhyw benderfyniadau a wneir gan Awdurdod Cynllunio Lleol yn y dyfodol.

3.3 Dylai datblygwyr ac ymgeiswyr fod yn ymwybodol y gall gwybodaeth am drafodaethau cyn ymgeisio fod yn destun ceisiadau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004. Mae'r Ddeddf a'r Rheoliadau yn cynnwys rhai eithriadau rhag yr angen i ddatgelu gwybodaeth fasnachol sensitif ac, mewn rhai achosion, lle mae ymgeiswyr o'r farn bod gwybodaeth benodol wedi'i

heithrio rhag gofynion y Ddeddf neu'r Rheoliadau, dylent gyfiawnhau hyn gerbron yr awdurdod cynllunio lleol.

Codi tâl am gyngor cyn ymgeisio

- 3.4 Yn ddarostyngedig i rai amodau, mae Deddf Llywodraeth Leol 2003 yn caniatáu i awdurdodau lleol godi tâl am wasanaethau dewisol. Fel y cyfryw, gall awdurdodau cynllunio lleol godi tâl am gyngor cyn ymgeisio. Os bydd awdurdod cynllunio lleol yn dewis codi tâl, dylid cynnwys rhestr brisio glir yn y datganiad am y gwasanaeth cyn ymgeisio, gyda'r ffioedd yn gymesur â'r math o ddatblygiad a ystyrir. Fodd bynnag, gall taliadau gormodol rwystro ymgeiswyr; efallai y bydd awdurdodau cynllunio lleol o'r farn y dylai datblygiadau gan ddeiliaid tai a rhai mân gynigion datblygu gael eu heithrio rhag unrhyw ffioedd.

Cymesuredd

- 3.5 Disgwylir i awdurdodau cynllunio lleol gynnig gwasanaeth cyn ymgeisio ar gyfer pob math o gynnig datblygu, waeth pa mor gymhleth ydyw. Fodd bynnag, yn anochel, bydd y math o wasanaeth cyn ymgeisio a gynigir gan yr awdurdod cynllunio lleol yn adlewyrchu natur y datblygiad arfaethedig a'i effeithiau tebygol.
- 3.6 Efallai na fydd gan ymgeiswyr sy'n ymwneud â datblygiadau gan ddeiliaid tai neu rai mân gynigion datblygu fawr ddim profiad o'r system gynllunio. Gall canllawiau ysgrifenedig, a gyhoeddir ar wefan yr awdurdod, helpu ymgeiswyr sy'n gwneud y fath gynigion datblygu ac mae'r Porth Cynllunio (www.planningportal.gov.uk) yn adnodd defnyddiol i ymgeiswyr hefyd. Fodd bynnag, ym mhob achos, dylai fod modd i ymgeiswyr drefnu apwyntiad gyda swyddog cynllunio - a all fod yn arbennig o werthfawr os nad yw'r ymgeisydd yn gyfarwydd â'r system gynllunio - er mwyn trafod cynigion cyn ymgeisio. Gall awdurdodau cynllunio lleol ystyried gweithredu gwasanaeth galw heibio ar gyfer datblygiadau gan ddeiliaid tai a mân gynigion datblygu eraill.
- 3.7 Mae Adran 4 o'r nodyn cyfarwyddyd yn trafod nifer o brosesau ac adnoddau cyn ymgeisio a fydd yn fwy priodol i ddatblygiadau mawr, mwy cymhleth - y cynlluniau sy'n debygol o gael effaith fwy o faint ac a fydd yn cynnwys nifer o randdeiliaid a swyddogion.

Cysondeb

- 3.8 Mae'n bwysig sicrhau bod y cyngor cynllunio a roddir gan awdurdodau cynllunio lleol yn gyson â'r hyn a ddefnyddir i lywio eu cynigion datblygu. Gellir gwella cysondeb, ac effeithiolrwydd trafodaethau cyn ymgeisio, os yw awdurdodau cynllunio lleol yn sicrhau bod gan swyddogion ddigon o brofiad i negodi a rhoi cyngor. Tra cydnabyddir bod problemau o ran adnoddau, dylai awdurdodau cynllunio lleol hefyd geisio sicrhau dilyniant o ran y swyddogion dan sylw er mwyn sicrhau mai'r un swyddog sy'n ymdrin ag unrhyw geisiadau cynllunio cysylltiedig.
- 3.9 Mae'n bwysig bod awdurdodau cynllunio lleol yn sicrhau bod trafodaethau cyn ymgeisio yn cael eu cofnodi a'u cysylltu â'r darn

perthnasol o dir neu eiddo er mwyn helpu gyda chwiliadau safle yn y dyfodol. Bydd hyn yn helpu awdurdodau cynllunio lleol i roi cyngor cyson i ymgeiswyr.

Trafodaethau cyn ymgeisio effeithiol

- 3.10 Er mwyn sicrhau bod trafodaethau cyn ymgeisio yn effeithiol, mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn siarad â'r awdurdod cynllunio lleol ar gam cynnar o'r prosiect datblygu. Mae trafodaethau cynnar yn rhoi'r cyfle i bartïon perthnasol gynnal deialog ystyrlon a gall hefyd hwyluso gwelliannau i gynlluniau cyn cyflwyno ceisiadau ffurfiol.
- 3.11 Er y cydnabyddir materion cyfrinachedd masnachol, bydd angen i ymgeiswyr roi digon o wybodaeth o ansawdd digon uchel i'r awdurdod cynllunio lleol er mwyn cael ymateb hyddysg a defnyddiol.
- 3.12 Dylai'r cyngor a roddir gan awdurdodau cynllunio lleol fod yn glir, yn gywir ac yn gynhwysfawr. Dylai ymgeiswyr ddisgwyl cael ymateb ysgrifenedig i'w cyflwyniad cyn ymgeisio sy'n nodi'r fframwaith polisi cynllunio perthnasol ac unrhyw ystyriaethau cynllunio eraill. Dylai awdurdodau cynllunio lleol gynghori ymgeiswyr ar y materion allweddol y gall cynnig cyn ymgeisio eu codi a nodi unrhyw bryderon sylfaenol, mewn egwyddor. Os bydd cyngor cynllunio yn newid, er enghraifft rhwng y camau cyn ymgeisio ac ymgeisio, dylid rhoi esboniad rhesymegol.
- 3.13 Bydd datganiad am y gwasanaeth cyn ymgeisio gan yr awdurdod cynllunio lleol yn rhoi dealltwriaeth ysgrifenedig i ymgeiswyr o'r math o wasanaeth y gellir ei ddisgwyl. Dylai ymgeiswyr fodloni gofynion ffurflen cyflwyniad cyn ymgeisio'r awdurdod cynllunio lleol a dylid nodi mai dim ond ymdrin â rhinweddau cynllunio cynnig y gall trafodaethau cyn ymgeisio eu gwneud.

Cynnwys rhanddeiliaid eraill

- 3.14 Yn aml, caiff trafodaethau cyn ymgeisio fudd o gynnwys partïon eraill â diddordeb mewn ffordd amserol ac adeiladol. Fodd bynnag, cydnabyddir y gall fod angen cryn dipyn o adnoddau i gynnwys rhanddeiliaid eraill yn y broses cyn ymgeisio ac mai ar gyfer cynlluniau mwy cymhleth sy'n esgor ar ystod eang o faterion cynllunio ac sy'n cael effaith fawr efallai y mae hyn fwyaf tebygol o fod yn briodol ac yn effeithiol. Am resymau cyfrinachedd, bydd angen i'r datblygwr gytuno i gynnwys rhanddeiliaid eraill ar y cam cyn ymgeisio. Mae'r grwpiau canlynol o bwys arbennig:

Cymunedau lleol

- 3.15 Efallai y bydd ymgeiswyr am drafod cynigion datblygu gyda chymunedau lleol neu gynrychiolwyr cymunedau lleol, a all gynnwys cynghorau tref a chymuned, cyn cyflwyno cais cynllunio ffurfiol er mwyn meithrin dealltwriaeth o bryderon lleol. Drwy gynnal trafodaethau â chymunedau lleol ar gam cynnar, gellir ymdrin ag unrhyw bryderon neu faterion neu eu lliniaru mewn unrhyw gais

cynllunio ffurfiol. Y datblygwr sy'n gyfrifol am drefnu unrhyw ymgynghoriad cymunedol ar y cam cyn ymgeisio.

Ymgynghoreion

- 3.16 Gall fod yn fuddiol cynnwys ymgynghoreion statudol ar y cam cyn ymgeisio, yn enwedig wrth ystyried cynigion technegol, mwy cymhleth a allai gael effaith sylweddol. Dylai awdurdodau cynllunio lleol gyfarwyddo ymgeiswyr i gysylltu ag ymgynghoreion statudol perthnasol a phan fo'n briodol cynnwys ymgynghoreion statudol mewn cyfarfodydd cyn ymgeisio, dylai'r awdurdod cynllunio lleol gydgysylltu hynny. Mae'n bwysig sicrhau bod digon o wybodaeth yn cael ei rhoi gan ddatblygwyr er mwyn sicrhau y ceir ymateb ystyrlon gan ymgynghorai.

Gwasanaethau awdurdodau lleol

- 3.17 Lle y bo'n briodol, dylid cynnwys meysydd gwasanaeth eraill awdurdodau lleol mewn trafodaethau cyn ymgeisio. Gall meysydd gwasanaeth megis datblygu economaidd, trafnidiaeth, tai, diogelu'r amgylchedd, draenio, cadwraeth natur, addysg a hamdden ac ati roi gwybodaeth bwysig i ddatblygwyr a all helpu a llywio ceisiadau.

Aelodau awdurdodau lleol

- 3.18 Mae Deddf Lleoliaeth 2011 yn annog aelodau lleol i gyfrannu at ddadl agored â'u cymunedau lleol ynghylch busnes y cyngor. Rhydd y Ddeddf ddarpariaethau i egluro'r rheolau o ran penderfynu ar gais ymlaen llaw a chadarnha nad ystyrir bod y sawl sy'n gwneud penderfyniadau wedi gweithredu â meddwl caeedig (nac ychwaith ei bod yn ymddangos iddynt wneud hynny) wrth wneud penderfyniad dim ond am eu bod wedi arddel barn benodol yn gynharach. Noda'r Ddeddf yn glir y dylai aelodau lleol chwarae rhan mewn trafodaethau lleol ac na ddylai fod modd eu herio'n gyfreithiol o ganlyniad i hynny. Fodd bynnag, bydd angen penderfynu ar geisiadau cynllunio yn unol â'r cynllun datblygu o hyd, oni fydd ystyriaethau perthnasol yn nodi fel arall. Nid yw'r ffaith na phenderfynir ar gais ymlaen llaw yn dileu'r rhwymedigaeth gyfreithiol honno. Bydd angen i aelodau lleol gadw meddwl agored o hyd wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio.
- 3.19 Nid yw'n ofynnol yn statudol i awdurdodau cynllunio lleol geisio cynnwys aelodau lleol yn uniongyrchol mewn trafodaethau cyn ymgeisio. Fodd bynnag, dylai awdurdodau cynllunio lleol frifio a diweddarau aelodau lleol ar gynigion datblygu mawr yn eu hetholaeth.
- 3.20 Lle mae aelodau lleol yn ceisio cymryd rhan mewn trafodaethau cyn ymgeisio, bydd angen ystyried hynny yn erbyn Cod Ymddygiad yr awdurdod lleol.
- 3.21 Bydd yn bwysig bod awdurdodau lleol yn cynnal digwyddiadau hyfforddi rheolaidd i aelodau lleol, gan gynnwys aelodau o bwyllgorau cynllunio. Mae hyn yn hynod bwysig ar ôl etholiadau lleol a lle y caiff cyfansoddiad pwyllgorau ei newid.

Cydgysylltu â systemau cydsynio eraill

- 3.22 Mae polisi defnydd tir Llywodraeth Cymru o blaid awdurdodau cynllunio lleol yn gweithio ochr yn ochr â systemau cydsynio amgylcheddol eraill². Gall cynnwys rhanddeiliaid perthnasol yn effeithiol ar y cam cyn ymgeisio helpu i hwyluso gwaith ar y cyd a dwyn manteision; er enghraifft, gall helpu i atal amodau croes rhag cael eu gosod ar wahanol fathau o ganiatâd a rhydd gyfle i nodi pan fo'n ddymunol cyflwyno caniatâd cysylltiedig nad yw'n ymwneud â chynllunio ar y cyd. Dylai awdurdodau cynllunio lleol hefyd ddefnyddio trafodaethau cyn ymgeisio i nodi systemau cydsynio eraill, er enghraifft caniatâd adeilad rhestredig, caniatâd ardal gadwraeth a chaniatâd sylweddau peryglus a all fod yn angenrheidiol ar ben unrhyw ganiatâd cynllunio.

² Llywodraeth Cymru (Rhifyn 4, 2011) Polisi Cynllunio Cymru, paragraff 13.1.3. [dolen <http://cymru.gov.uk/topics/planning/policy/ppw/?lang=cy>]

4 Prosesau ac Adnoddau ar gyfer Trafodaethau Cyn Ymgeisio

- 4.1 Rhydd yr adran hon o'r canllaw ddisgrifiad cryno o rai o'r prosesau ac adnoddau a all gael eu defnyddio ar gyfer trafodaethau cyn ymgeisio.
- 4.2 Dylai awdurdodau cynllunio lleol ystyried ymgorffori'r prosesau a'r adnoddau hyn mewn trafodaethau cyn ymgeisio ond ni fyddant, o reidrwydd, yn briodol ar gyfer pob math o gynnig datblygu a'r awdurdod cynllunio lleol fydd yn dewis p'un a gânt eu defnyddio ai peidio, gan ystyried graddau a chymhlethdod y datblygiad arfaethedig. Er enghraifft, ar gyfer cynlluniau mwy cymhleth a mwy o faint y bydd y camau amlddisgyblaethol a amlinellir isod fwyaf addas.
- 4.3 Cydnabyddir ei bod yn bosibl na fydd gan ymgeiswyr sy'n cyflwyno cynigion ar gyfer datblygiadau gan ddeiliaid tai neu fân ddatblygiadau brofiad o ddefnyddio'r system cynllunio defnydd tir a bydd angen iddynt gael gwasanaeth cyn ymgeisio sy'n berthnasol i'w hanghenion. Er y gall nodiadau cyfarwyddyd atodol, megis Canllawiau Dylunio i Ddeiliaid Tai, fod yn ddefnyddiol i ymgeiswyr o'r fath, maent yn debygol o fod angen cyswllt uniongyrchol â swyddog cynllunio.

Nodiadau briffio datblygu a chanllawiau cynllunio atodol

- 4.4 Mae nodyn briffio datblygu (gweledigaeth ar gyfer yr ardal neu brif gynllun ac ati) ar gyfer safle a chanllawiau cynllunio atodol eraill yn ddogfennau defnyddiol a gaiff eu llunio gan awdurdodau cynllunio lleol ac a ddylai gael eu darllen cyn i unrhyw drafodaethau cyn ymgeisio gael eu cynnal. Gall awdurdodau cynllunio lleol lunio nodiadau briffio neu brif gynlluniau sy'n benodol i safle, a fydd yn nodi'r egwyddorion cynllunio sy'n sail i asesu cynigion datblygu ar safle penodol. Bydd canllawiau cynllunio atodol eraill yn rhoi cyngor ar amrywiaeth o faterion megis dylunio, safonau parcio a manau agored.
- 4.5 Yr anfantais fwyaf sydd ynghlwm wrth y dogfennau hyn yw'r amser a'r adnoddau sydd eu hangen cyn eu mabwysiadu. Efallai y byddant yn rhy anhyblyg ar gyfer llawer o drafodaethau cyn ymgeisio.

Datganiadau dylunio a mynediad

- 4.6 Mae angen cyflwyno datganiadau dylunio a mynediad gyda'r rhan fwyaf o geisiadau cynllunio; rhoddir rhagor o gyngor yn Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio (2009). Rhydd trafodaethau cyn ymgeisio gyfle gwych i'r awdurdod cynllunio lleol a'r ymgeisydd drafod yr hyn y mae angen ei gynnwys mewn datganiadau dylunio a mynediad.

Timau amlddisgyblaethol

- 4.7 Mae rhai awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru yn defnyddio timau amlddisgyblaethol ar gyfer trafodaethau cyn ymgeisio (fe'u gelwir yn Dîm Datblygu yn aml). Gall hyn ddwyn ynghyd amrywiaeth o bartïon â diddordeb a swyddogion o sawl maes gwasanaeth - er enghraifft,

cadwraeth, ecoleg, datblygu economaidd, trafnidiaeth a thai. Mae defnyddio tîm fel hwn yn ddefnyddiol iawn pan drafodir cynigion datblygu mwy cymhleth. Pan fyddant yn cynnal trafodaethau cyn ymgeisio â Tîm Datblygu, mae angen i ymgeiswyr sicrhau eu bod yn cael cymorth arbenigwyr proffesiynol priodol fel y gellir trafod materion allweddol mewn ffordd hyddysg.

Cytuno ar wybodaeth mewn cais

- 4.8 Un o amcanion allweddol y broses cyn ymgeisio yw cyflwyno cais cynllunio dilys. Cyflwynwyd gofynion dilysu safonol ar gyfer ceisiadau cynllunio yng Nghymru drwy'r ffurflen gais safonol (1APP) ac fe'u nodir yng Ngorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefnau Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 (OS 2012/801 W.110)³.
- 4.9 Mae trafodaethau cyn ymgeisio hefyd yn gyfle i'r awdurdod cynllunio lleol nodi unrhyw wybodaeth neu ddogfennaeth dechnegol, y gall fod ei hangen i ategu cais.
- 4.10 Un ffactor sy'n peri oedi yn aml wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio yw negodi cynnwys rhwymedigaethau cynllunio. Dylai egwyddorion rhwymedigaeth gynllunio gael eu pennu mewn trafodaethau cyn ymgeisio. Yn ddelfrydol, dylai trafodaethau hwyluso'r broses o gyflwyno cytundeb adran 106 drafft neu benawdau telerau gyda'r cais cynllunio. Gall templedi safonol a chytundebau enghreifftiol oll gael eu trafod yn ddefnyddiol mewn trafodaethau cyn ymgeisio. Efallai y bydd canllaw lleol ar rwymedigaethau cynllunio hefyd o fudd arbennig ar y cam cyn ymgeisio. Lle y bo'n briodol, dylai'r ardoll seilwaith cymunedol hefyd gael ei thrafod â datblygwyr.

Dulliau gweithredu eraill

- 4.11 Mae Comisiwn Dylunio Cymru yn darparu gwasanaeth adolygu dylunio am ddim, sy'n fodd i ymgynghori â'i banel o arbenigwyr annibynnol ar gam cynnar⁴. Mae'r Comisiwn hefyd yn cyhoeddi astudiaethau achos ac yn llunio canllawiau arfer da ar faterion sy'n ymwneud â dylunio, a all fod yn ddefnyddiol i drafodaethau cyn ymgeisio.
- 4.12 Mae'r Gwasanaeth Cyngori Cynllunio yn Lloegr wedi cyhoeddi canllaw arfer sef "Constructive Talk: investing in pre-application discussions" (Mai 2007)⁵. Er mai ar gyfer awdurdodau cynllunio lleol a rhanddeiliaid yn Lloegr y lluniwyd y canllawiau, mae'r ddogfen yn cynnwys nifer o weithdrefnau ac arferion arfer gorau sy'n berthnasol i Gymru hefyd.

³[dolen <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2012/801/introduction/made/welsh>]

⁴ Comisiwn Dylunio Cymru (Ionawr 2011), Design Commission for Wales: A Guide to the Design Review Service. [dolen http://dcfw.org/publications/view/a_guide_to_the_design_review_service/]

⁵Gwasanaeth Cyngori Cynllunio (Mai 2007). Constructive Talk, Investing in Pre-Application Discussions. [dolen www.pas.gov.uk/pas/aio/39020]

5 Rhestrau Gwirio ar gyfer Awdurdodau Cynllunio ac Ymgeiswyr

5.1 Gall awdurdodau cynllunio lleol ac ymgeiswyr gymryd llawer o gamau i sicrhau bod trafodaethau cyn ymgeisio mor effeithiol â phosibl; mae'r rhain wedi cael eu datblygu ar ffurf rhestrau gwirio ac fe'u nodir isod. Ni fydd yr holl bwyntiau a restrir isod yn berthnasol i bob math o gynnegyn ymgeisio a bydd y graddau y maent yn berthnasol yn gysylltiedig ag effaith a chymhlethdod y datblygiad.

5.2 Gall y rheini sydd am gael cyngor ar gynigion datblygu wneud y canlynol:

- cysylltu â'r awdurdod cynllunio lleol mor gynnar â phosibl. Dylai ymgeiswyr geisio cyngor mewn da bryd cyn cyflwyno cais cynllunio fel y gall unrhyw adborth a roddir gael ei ystyried cyn i gais cynllunio ffurfiol gael ei gyflwyno;
- edrych am wybodaeth ar wefan yr awdurdod cynllunio lleol. Nodi ac ystyried y cynllun datblygu ar gyfer yr ardal ac unrhyw ddogfennaeth berthnasol arall megis nodiadau cyfarwyddyd cynllunio atodol. Drwy wneud yr ymchwil hon, bydd ymgeiswyr yn gallu cynnal trafodaethau cyn ymgeisio mewn ffordd hyddysg;
- hyrwyddo buddiannau eu cynnig. Er enghraifft, dylai datblygwyr nodi a hyrwyddo gwerth economaidd eu cynnig a dangos sut yr aed i'r afael â materion cymdeithasol ac amgylcheddol;
- ystyried ar bwy y bydd y cynnig yn effeithio a sut y gellir lleihau unrhyw effeithiau negyddol;
- rhoi cymaint o wybodaeth â phosibl mewn trafodaethau cyn ymgeisio. Drwy wneud hyn, bydd modd i'r awdurdod cynllunio lleol roi ymateb mwy manwl a hyddysg;
- cofio na fydd y cyngor a roddir yn golygu bod y cyngor yn rhwym wrth benderfyniad penodol;
- ceisio cyngor proffesiynol ar gam cynnar a chydgyssylltu'r cyngor hwn, gan gydnabod y bydd angen cael arbenigedd penodol mewn meysydd fel ecoleg, yr amgylchedd adeiledig, trafniadaeth ac ati ar gyfer rhai cynigion datblygu;
- lle y bo angen, cynnwys ymgynghoreion yn uniongyrchol ar gam cynnar, gan gynnwys cyrff megis Comisiwn Dylunio Cymru, a rhoi'r cyfle iddynt ymateb yn llawn gyda digon o amser i lywio unrhyw gais cynllunio dilynol;

- pan gaiff y cais ei gyflwyno, nodi i drafodaethau cyn ymgeisio gael eu cynnal - byddai'n ddefnyddiol rhoi enw'r swyddog cynllunio a roddodd gyngor. Dylai'r ymgeisydd hefyd nodi sut yr aed i'r afael â'r materion a godwyd gan yr awdurdod cynllunio lleol a rhanddeiliaid eraill yn ystod y broses cyn ymgeisio.

5.3 Gall awdurdodau cynllunio lleol wneud y canlynol:

- rhoi cymaint o gyhoeddusrwydd â phosibl i'w gwasanaeth yn y swyddfa, ar wefannau, mewn llyfrgelloedd ac ati a sicrhau bod yr holl ddeunydd yn hyddysg, yn hawdd i'r cyhoedd ei ddeall ac yn pwysleisio gwerth ac argaeledd trafodaethau;
- ystyried sut i gynnig gwasanaeth cymesur a hygyrch. Ystyried darparu gwasanaeth galw heibio sylfaenol i ymdrin â cheisiadau gan ddeiliaid tai, cymhorthfa gynllunio sy'n gweithredu ar sail apwyntiadau ar gyfer cynigion mwy o faint neu gyfres o gyfarfodydd sy'n ymgorffori sawl disgyblaeth ar gyfer cynnig mawr a chymhleth;
- cynnig ystafell breifat os gofynnir am hynny;
- rhoi gwybodaeth i'r sawl sy'n paratoi cynnig, gan gynnwys hanes cynllunio a chynlluniau;
- lle y bo'n berthnasol, dylai cynigion gael eu prosesu drwy becyn PADHI yr awdurdod cynllunio lleol fel y rhoddir cyngor cynnar ar unrhyw bryderon tebygol gan yr Awdurdod Gweithredol lechyd a Diogelwch sy'n ymwneud â sylweddau peryglus;
- sicrhau bod swyddogion cynllunio yn gyfarwydd â'r ardal maent yn ymdrin â hi ac, yn ddefnyddiol, yn gyfarwydd â'r safle datblygu. Dylai fod gan swyddogion lefel briodol o brofiad fel y gallant roi cyngor boddhaol ar gynigion datblygu;
- anelu at sicrhau dilyniant o ran y swyddogion sydd ynghlwm wrth y broses gynllunio ac, ym mha achos bynnag, sicrhau cysondeb o ran y cyngor a roddir rhwng y cam cyn ymgeisio a phenderfynu ar y cais cynllunio;
- cynnig cynnal cyfarfodydd ar y safle. Dylid trefnu cyfarfod ar y safle lle y byddai o fudd amlwg i'r drafodaeth am y cais;
- ystyried defnyddio Tîm Datblygu lle y gallai swyddogion o amrywiaeth o wasanaethau awdurdodau lleol fod ar gael. Gallai hyn gynnwys cadwraeth, trafnidiaeth, coed, rheoliadau adeiladu ac eraill;

- rhoi syniad o b'un ai pwyllgor cynllunio neu bwerau dirprwyedig a fydd yn penderfynu ar y cais;
- sicrhau bod datblygwyr yn ymwybodol o ofynion rhyddid gwybodaeth ac egluro sut yr ymdrinnir â materion cyfrinachedd masnachol;
- sicrhau bod cofnodion yn cael eu cadw o drafodaethau - dylai cofnodion gael eu cysylltu â'r darn perthnasol o dir neu eiddo er mwyn helpu gydag unrhyw achos dilynol o chwilio hanes cynllunio - bydd hyn yn helpu i roi cyngor cynllunio cyson.

6 Rhagor o Wybodaeth a Chyngor

Polisiâu a chanllawiau Llywodraeth Cymru

6.1 Rhoddir rhagor o wybodaeth a chyngor ar drafodaethau cyn ymgeisio ym mholisiâu a chanllawiau Llywodraeth Cymru. Mae'r dogfennau canlynol yn rhoi cyngor penodol ar drafodaethau cyn ymgeisio:

- *Polisi Cynllunio Cymru (Fersiwn 4 Chwefror 2011)*
Mae paragraff 1.3.8 yn annog trafodaethau cyn ymgeisio yn gyffredinol. Hefyd, noda nifer o feysydd lle mae trafodaethau cyn ymgeisio yn fuddiol iawn, gan gynnwys: dylunio (paragraff 4.10.13); bywyd gwylt, tirwedd a chefn gwlad (paragraff 5.5.1); a thelathrebu (paragraff 12.13.6).
- *Nodyn Cyngor Technegol 5 Cadwraeth natur a chynllunio (2009)*
Mae Adran 4.2 yn nodi pwysigrwydd trafodaethau cyn ymgeisio o ran cadwraeth natur ac mae Tabl 4.1 yn nodi â phwy y dylid ymgynghori.
- *Nodyn Cyngor Technegol 8 Ynni Adnewyddadwy (2005)*
Mae paragraff 6.1 yn cydnabod pwysigrwydd trafodaethau cyn ymgeisio i'r gwaith o integreiddio ynni adnewyddadwy mewn datblygiadau arfaethedig.
- *Nodyn Cyngor Technegol 12 Dylunio (2009)*
Paragraff 3.6 a Ffigur 2 - Nodir bod trafodaethau cyn ymgeisio yn allweddol i greu system gynllunio ragweithiol a pharatoi datganiadau dylunio a mynediad. Mae paragraffau 6.10, 6.11 ac A4.6 yn pwysleisio pwysigrwydd trafodaethau cyn ymgeisio wrth lunio datganiadau dylunio a mynediad. Mae paragraffau 5.6.1 ac A3.9 yn pwysleisio pwysigrwydd trafodaethau cyn ymgeisio o ran yr amgylchedd hanesyddol a buddiannau mynediad.
- *Nodyn Cyngor Technegol 15 Datblygu a Pherygl o Lifogydd (2004)*
Mae paragraffau 11.4 ac 11.5 yn annog trafodaethau cyn ymgeisio sy'n cynnwys asiantaeth yr amgylchedd / corff draenio priodol, awdurdodau cynllunio lleol a datblygwyr.
- *Nodyn Cyngor Technegol 19 Telathrebu (2002)*
Mae paragraffau 53 a 66 yn nodi bod trafodaethau cyn ymgeisio o fudd i geisiadau telathrebu. Anogir cynnal trafodaethau â grwpiau trigolion lleol, Cynghorau Cymuned a chyrff amwynder a all fod â diddordeb mewn datblygiadau telathrebu (paragraff 51). Lle y bo'n briodol, anogir cynnal trafodaethau ag awdurdodau priffyrdd, Cadw a Chyngor Cefn Gwlad Cymru (paragraff 52).
- *Nodyn Cyngor Technegol 22 Cynllunio ar gyfer Adeiladau Cynaliadwy (2010)*
Mae Ffigur 17 yn cynnwys cyngor ar sut i gynnal trafodaethau cyn ymgeisio.

- *Cylchlythyr Llywodraeth Cymru 00/2012 Canllawiau i Awdurdodau Cynllunio Lleol ar Ddefnyddio'r Ffurflen Gais Safonol ("1APP") a Dilysu Ceisiadau.*
- *Cylchlythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru 30/2007 Cynllunio ar gyfer Safleoedd Carafanau Sipsiwn a Theithwyr*
Mae paragraff 38 yn nodi bod trafodaethau cyn ymgeisio yn bwysig iawn er mwyn osgoi camddealltwriaeth a phroblemau dilynol o ran caniatâd cynllunio ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr. Rhydd Atodiad C paragraff 4 gyngor i awdurdodau cynllunio lleol ar faterion i'w hystyried wrth roi cyngor cyn ymgeisio ar geisiadau cynllunio Sipsiwn a Theithwyr. Rhydd Atodiad D paragraffau 2-5 gyngor manwl i Sipsiwn a Theithwyr ar yr hyn i'w ystyried cyn cyflwyno cais cynllunio.
- *Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 11/99 Asesu Effeithiau Amgylcheddol*
Mae paragraff 14 yn nodi buddiannau asesu effeithiau amgylcheddol ar y cyd ag ymgynghoriadau cyn ymgeisio cynnar ag awdurdodau cynllunio lleol.
- *Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/99 Gofynion cynllunio mewn perthynas â defnyddio systemau carthffosiaeth heb brif gyflenwad a chynnwys tanciau septig mewn datblygiadau newydd*
Mae paragraff 10 yn cynghori y dylid cynnal trafodaethau rhwng datblygwyr, yr awdurdod cynllunio lleol, Asiantaeth yr Amgylchedd ac ymgwymerwyr carthffosiaeth lle y cynigir defnyddio system garthffosiaeth nad yw'n gysylltiedig â'r prif gyflenwad.
- *Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 61/96 Cynllunio a'r amgylchedd hanesyddol*
Mae paragraff 6 yn cynghori y dylai datblygwyr ac awdurdodau ymgynghori'n gynnar ar gynigion datblygu a fyddai'n effeithio ar safleoedd hanesyddol.
- *Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 60/96 Cynllunio a'r amgylchedd hanesyddol: Archeoleg*
Mae paragraff 11 yn cynghori y dylid ystyried a thrafod yn gynnar er mwyn nodi a oes olion archeolegol yn debygol o fod ar safle.
- *Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 35/95 Amodau*
Mae paragraff 7 yn nodi pwysigrwydd trafodaethau cyn ymgeisio o ran lleihau'r angen am amodau, trafod telerau amodau a sicrhau eu bod wedi'u teilwra i gais penodol.
- *Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 22/87 Datblygu tir halogedig*
Mae paragraff 12 yn nodi pa mor ddefnyddiol yw trafodaethau anffurfiol i dynnu sylw datblygwyr at y posibilrwydd o halogi.
- *Canllawiau Cynllunio Mwynau 2 1988 Ceisiadau, caniatadau ac amodau*

Rhydd paragraffau 5 a 6 gyngor ar drafodaethau cyn ymgeisio ar gyfer ceisiadau cynllunio mwynau.

- *Practice Guidance: Planning Implications of Renewable and Low Carbon Energy (Chwefror 2011)*
Rhydd paragraffau 20.6 - 20.10 gyngor ar rôl trafodaethau cyn ymgeisio mewn datblygiadau ynni adnewyddadwy ac ynni carbon isel.
- *Cyflenwi tai fforddiadwy gan ddefnyddio cytundebau adran 106: Cyfarwyddyd Ymarfer (Gorffennaf 2008)*
Rhydd Adran 5.2 o'r ddogfen hon gyngor ar drafodaethau cyn ymgeisio a'u pwysigrwydd wrth negodi gofynion tai fforddiadwy.

Ffynonellau eraill o wybodaeth a chyngor

6.2 Mae amrywiaeth o ffynonellau eraill o wybodaeth a chyngor ar gael ac mae'r canlynol yn hynod ddefnyddiol:

- *Comisiwn Dylunio Cymru* <http://dcfw.org/>
Mae Comisiwn Dylunio Cymru yn cynnig gwasanaeth adolygu dylunio a all fod yn fuddiol iawn wrth lunio cynigion cyn cyflwyno cais.
- *Cymorth Cynllunio Cymru* <http://www.planningaidwales.org.uk/>
Mae Cymorth Cynllunio Cymru yn elusen gofrestrdig annibynnol. Rhydd gyngor a chymorth proffesiynol a diduedd am ddim mewn perthynas â phob agwedd ar gynllunio defnydd tir yng Nghymru. Efallai y gall gynnig cyngor ar y cam cyn ymgeisio. Mae wedi cyhoeddi 'Arweiniad i'r system gynllunio defnydd tir yng Nghymru' sy'n disgrifio sut mae trafodaethau cyn ymgeisio yn gweddu i'r broses gynllunio ehangach.
- *Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru*
- *Porth Cynllunio* www.planningportal.gov.uk
Mae'r Porth Cynllunio yn rhoi gwybodaeth am y system gynllunio yng Nghymru.
- *RTPI Cymru* www.rtpi.org.uk/rtpi_cymru/
Mae'r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yn hyrwyddo cynllunio fel proffesiwn ac yn meithrin cysylltiadau â phroffesiynau a sefydliadau eraill ledled Cymru sy'n ymwneud â'r amgylchedd adeiledig.

6.3 Y tu hwnt i Gymru, cyhoeddwyd gwybodaeth gan amrywiaeth o sefydliadau, y gall rhywfaint ohoni fod o ddefnydd mewn cyd-destun Cymreig:

- *Y Gwasanaeth Cyngori Cynllunio* <http://www.pas.gov.uk/>

Mae'r Gwasanaeth Cynghori Cynllunio yn gorff yn Lloegr sydd wedi rhoi cyngor ar drafodaethau cyn ymgeisio y gall cryn dipyn ohono gael ei roi ar waith yng Nghymru. Mae hefyd wedi cyhoeddi canllaw arfer gorau sef 'Constructive talk: effective pre-application discussions'

- *Cymdeithas y Swyddogion Cynllunio*
<http://www.planningofficers.org.uk/>
Mae Cymdeithas y Swyddogion Cynllunio wedi cyhoeddi nodyn cyfarwyddyd ar roi cyngor cyn ymgeisio fel rhan o'i phortffolio Dyfodol Cynllunio sef Rhif 8 Pre planning application consultation best practice 3 Hydref 2010. Mae hefyd wedi cyhoeddi Nodyn Cyfarwyddyd Ymarfer Rhif 3: Councillor involvement in pre application discussions 30 Mehefin 2008.

Ceir Cymdeithas Swyddogion Cynllunio ar wahân i Gymru.

- *Fforwm Cynllunio Cenedlaethol* <http://www.natplanforum.org.uk>
Sefydliad yn Lloegr yw hwn sy'n cynrychioli trawstoriad o sefydliadau â buddiant mewn cynllunio gwlad a thref. Mae wedi cyhoeddi dogfen sef Good Practice Note No. 2 Pre-application advice for town and country planning (2005).
- *Cymdeithas Ecolegwyr Llywodraeth Leol (ALGE)*
Pecyn Cymorth Bioamrywiaeth: adnodd ar-lein sy'n anelu at helpu defnyddwyr i ymgorffori bioamrywiaeth yn y system gynllunio a datblygiadau newydd
http://biodiversityplanningtoolkit.com/stylesheet.asp?file=131_welcome_to_the_biodiversity_toolkit

Cwynion

- 6.4 Gall Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ymchwilio i gwynion sy'n ymwneud â chyngor cynllunio cyn ymgeisio anghywir/camarweiniol/anghyflawn a all fod wedi peri problemau difrifol i ymgeiswyr. Mae "Taflen Ffeithiau ar Geisiadau Cynllunio" Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn rhoi rhagor o ganllawiau a gwybodaeth. (<http://www.ombudsman-wales.org.uk/>)

Rhanddeiliaid eraill

- 6.5 Efallai y bydd y rhestr ganlynol o ddolenni, nad yw'n gyflawn, i randdeiliaid eraill a all fod yn gysylltiedig â'r broses o wneud cais cynllunio, yn ddefnyddiol:
- Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru. <http://www.environment-agency.gov.uk/>

Yn cynnwys canllawiau ar y perygl o lifogydd, cyfyngiadau amgylcheddol a "Canllaw i Ddatblygwyr" sy'n nodi'r materion amgylcheddol y dylid ymdrin â hwy mewn prosiectau datblygu.

- Cymru Hanesyddol. <http://jura.rcahms.gov.uk/NMW/start.jsp>

Yn cynnwys dolen i borth lle y gellir chwilio, ar yr un pryd, gannoedd ar filoedd o gofnodion sy'n ymwneud â henebion archeolegol, adeiladau hanesyddol ac arteffactau a ddelir gan wahanol sefydliadau ledled Cymru.

- Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru
http://www.biodiversitywales.org.uk/legislation_guidance-20.aspx

Yn cynnwys rhestrau gwirio ar gyfer awdurdodau cynllunio lleol a datblygwyr o ran eu dyletswyddau o dan ddeddfwriaeth bioamrywiaeth.